

COFRESTR RISG DRAFFT PORTFFOLIO CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros Cyfredol			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau Camau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg weddilliol			Tuedd	Statws (agored/cae dig)	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad diwethaf
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R001	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Capasiti	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Mae angen adnoddau ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect i sicrhau y cyflawnir portffolio'r Cynllun Twf yn llwyddiannus. Gallai diffyg adnoddau gael effaith arwyddocaol ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus.	3	5	15	↔	Cyllid referniw i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio drwy gyfraniadau partner y Bwrdd Uchelgais, cyllid ESF swm cyfwerth â 'haenen uchaf' y grantiau llywodraeth blynyddol ar 1.5%. Bydd unrhyw gostau Swyddfa Rheoli Portffolio ychwanegol yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i gyflawni'r prosiectau yn cael eu cynnwys o fewn achosion busnes y prosiectau. PMO i archwilio opsiynau ar gyfer cynyddu capasiti technegol i gefnogi caffael PMO i ddefnyddio cefnogaeth dechnegol allanol pan fo angen	N/A N/A 31/12/20 Yn ôl yr angen	Y BWRDD UCHELGAIS PMO PMO PMO	2	4	8	↔	Agored		10/21/2020
R002	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Oediad	Swyddfa Rheoli Portffolio	Gallai unrhyw oedi â chyflawni unrhyw rai o'r prosiectau effeithio ar bortffolio cyffredinol y Cynllun Twf.	4	4	16	↔	Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen gyda llwybrau dyrchafu i'r Bwrdd Uchelgais Log RAID rhaglenni a phrosiectau yn eu lle i gofnodi risgiau a rheoli materion Achosion busnes a chynlluniau gweithredu prosiectau i ddangos yn glir y risgiau i gyflawni prosiectau a'r mesuray	Misol N/A N/A	PMO PMO/Ariannwr y Prosiect Ariannwr y Prosiect	3	4	12	↔	Agored		10/21/2020
R003	10/21/2020	Ariannol	Fforddiadwyedd	Swyddfa Rheoli Portffolio	Mae risg y bydd cost y prosiectau sydd wedi'u cynnwys yng nghynnig Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynyddu.	4	4	16	↔	Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli costau Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau Unwaith y bydd yr Achosion Busnes Prosiect wedi'u cymeradwyo, bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gyfrifoldeb ar Ariannwr y Prosiect.	N/A N/A 12/20	PMO/Ariannwr y Prosiect PMO PMO	3	3	9	↔	Agored		10/21/2020
R004	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	COVID-19	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Mae'r pandemig COVID-19 yn parhau i fod yn risg i gyflawni'r portffolio. Nid yw effaith economaidd y cyfyngiadau clo wedi cael eu gweld yn llawn hyd yma ac fe allai hyn effeithio ar fusnesau lleol, awdurdodau lleol a darparwyr addysg yn yr un modd. Yn ogystal, gallai cyfyngiadau clo yn y dyfodol oedi'r Cynllun Twf.	4	4	16	↔	Y Cyfarwyddwr Rhaglen yw'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer adfer yr economi Bydd Achosion Busnes Prosiectau yn ystyried goblygiadau COVID-19 Lle gallai COVID-19 gael effaith glir ar hyfywedd / angen am brosiect, bydd y prosiect yn ddarostyngedig i adolygiad llaw cyn datblygu'r achos busnes	N/A N/A	PMO, SROs PMO, SROs, Bwrdd Uchelgais	4	4	16	↔	Agored		10/21/2020
R005	10/21/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Brexit	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Ar hyn o bryd, erys ansicrwydd ynghylch deilliant gwaith negodi Brexit. Gallai economi Cymru gael ei tharo yn y tymor byr os bydd Brexit heb fargen yn digwydd, a fyddai'n effeithio ar rai o'n sectorau drwy dariffau a tharfau ar y gadwyn gyflenwi.	3	4	12	↔	Bydd Achosion Busnes Prosiectau yn ystyried goblygiadau Brexit. Lle gallai Brexit gael effaith glir ar hyfywedd / angen am brosiect, bydd y prosiect yn ddarostyngedig i adolygiad llaw cyn datblygu'r achos busnes	N/A	PMO, SROs	3	4	12	↔	Agored		10/21/2020
R006	10/21/2020	Amgylcheddol	Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Mae risg y bydd y prosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi'u heffeithio gan ffactorau'n ymwneud â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, gydag isadeiledd, cyflenwad dŵr cyhoeddus, rheoli tir, ecosystemau ac amaethyddiaeth wedi'u hadnabod fel y pethau sydd â'r risg mwyaf	3	3	9	↔	Cyfalaf naturiol i'w ystyried fel rhan o'r broses caniatadau lle bo angen hynny Lle bo angen, bydd achosion busnes prosiectau yn cynnwys asesiadau cyfalaf naturiol yn unol â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd	N/A N/A	Partneriaid arweiniol, y Bwrdd Uchelgais PMO, SROs	2	3	6	↔	Agored		10/21/2020
R007	10/21/2020	Ariannol	Buddsoddiad Sector Preifat	Swyddfa Rheoli Portffolio	Mae angen buddsoddiad sector preifat arwyddocaol i gyflawni'r portffolio. Mae risg na fydd lefel y buddsoddiad sector preifat angenrheidiol yn cael ei gynnal.	4	5	20	↔	Parhau i ymgysylltu ag Ariannwr y Prosiectau a phartneriaid sector preifat Datblygu achosion busnes prosiectau a chytundebau cadarn ar gyfer cyllid y Cynllun Twf Proses wedi'i chytuno er mwyn ystyried prosiectau newydd os oes angen	N/A	PMO, SROs	4	4	16	↔	Agored		10/21/2020
R008	10/21/2020	Ariannol	Buddsoddiad Sector Cyhoeddus	Swyddfa Rheoli Portffolio	Mae angen buddsoddiad sector cyhoeddus arwyddocaol i gyflawni'r portffolio. Mae risg na fydd lefel y buddsoddiad sector cyhoeddus angenrheidiol yn cael ei gynnal.	4	5	20	↔	Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob prosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau'r portffolio, yn cynnwys buddsoddiad	N/A	PMO, SROs	3	5	15	↔	Agored		10/21/2020
R009	10/21/2020	Rheoleiddio	Caniatâd Cynllunio a Statudol	Swyddfa Rheoli Portffolio	Fel rhaglen buddsoddiad cyfalaf, mae risg na fydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu cyflawni ac na fydd y buddion yn cael eu gwirredu, oni bai bod y prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth cynllunio angenrheidiol.	4	5	20	↔	Bydd achosion busnes prosiectau cadarn yn nodi'r gofynion caniatâd ar gyfer pob prosiect a'r risgiau i gyflawni'r prosiect	N/A	PMO, SROs	3	5	15	↔	Agored		10/21/2020

Rhif y Risg	Dyddiad Codi'r Risg	Categori'r Risg	Enw'r Risg	Perchennog y Risg	Disgrifiad o'r Risg	Graddfa Risg Gros Cyfredol			Tuedd	Camau Lliniaru	Dyddiadau Cwblhau Camau	Perchennog y Cam	Graddfa Risg weddilliol			Tuedd	Statws (agored/cae dig)	Sylwadau	Dyddiad y diweddariad diwethaf
						P	I	Sgôr					P	I	Sgôr				
R010	10/21/2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Amcanion Gwariant	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Y Cynllun Twf yn methu cyflawni yn erbyn targedau Amcanion Gwariant y Portffolio - yn benodol cynhyrchu swyddi, GVA a buddsoddiad	3	4	12	↔	Datblygir achosion busnes cadarn ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn unol â'r Model Pum Achos Busnes a bydd angen nodi y cyfraniad i dargedau amcanion gwariant y portffolio	N/A	PMO, SROs	2	3	6	↔	Agored		10/21/2020
R013	10/21/2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Newid Gwleidyddol	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Gallai newidiadau gwleidyddol effeithio ar gefnogaeth i raglenni / prosiectau'r Portffolio	4	4	16	↔	Ymgysylltu cyson gyda gwleidyddion Llywodraeth Cymru a'r DU a llywodraeth leol. GA2 a'r Cytundeb Terfynol i gadarnhau ymrwymadau'r holl bartion.	N/A 31/12/20	Y BWRDD UCHELGAIS Y BWRDD	4	2	8	↔	Agored		10/21/2020
R014	10/22/2020	Ariannol	Twyll	Y Cyfarwyddwr Portffolio	Gallai'r portffolio fod yn ddarostyngedig i hawliadau twyllodrus a fyddai'n arwain at gamddefnydd o gyllid cyhoeddus	4	4	16	↔	Prosiectau i gael prosesau monitro ariannol cadarn yn eu lle PMO i adolygu'r hawliadau a gyflwynir cyn eu pasio nhw at y corff atebol i'w talu Cod ymddygiad a pholisi gwrthdaro buddiannau wedi'u hymgorffori fel rhan o Gytundeb Llywodraethu 2	N/A N/A 31/12/20	PMO PMO Swyddog Monitro	2	4	8	↔	Agored		10/22/2020
R015	10/22/2020	Effaith Cymdeithasol ac Enw da	Gwireddu Buddion	Swyddfa Rheoli Portffolio	Gallai'r Swyddfa Rheoli Portffolio fethu gwireddu'r buddion sydd wedi'u nodi o fewn yr achosion busnes	4	4	16	↔	Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion. Adroddiadau cryno misol i'r Bwrdd Rhaglen i fonitro gwireddu buddion Strategaeth Caffael i'w mabwysiadu gyda ffocws ar fuddion cymunedol a gwerth cymdeithasol	N/A Misol N/A	PMO, SROs PMO PMO/Ariannwr y Prosiect	3	3	9	↔	Agored		10/22/2020
R016	10/22/2020	Cyflawni Rhaglenni a Phrosiectau	Sicrwydd	Rheolwr Gweithrediadau	Methu glynu wrth yr IAAP ac arddangos sicrwydd priodol yn arwain at atal taliadau'r llywodraeth	3	5	15	↔	Parhau i ymgysylltu â Hwb Sicrwydd Llywodraeth Cymru i fireinio'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig (IAAP) IAAP portffolio, rhaglen a phrosiect manwl i'w gytuno gyda'r llywodraeth drwy'r broses AOR a'i ddiweddarau'n chwarterol Arweinydd sicrwydd y PMO i gydlynu cyflawni sicrwydd yn unol â'r IAAP	31/12/20 31/12/20 N/A	PMO PMO PMO	2	4	8	↔	Agored		10/22/2020
R017	10/22/2020	Ariannol	Rheolaeth Ariannol	Swyddog a151	Methu rhoi trefniadau cyllid priodol yn eu lle ar gyfer cyflawni'r cynllun twf, tynnu lawr y grant a chlustnodi cyllid	3	4	12	↔	Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio prosesau ariannol presennol Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya Bydd achosion busnes y prosiectau yn nodi mesurau rheoli risg, masnachol ac ariannol manwl ar lefel prosiect i reoli cyllid Caiff trefniadau adrodd perfformiad, risg ac ariannol cadarn eu sefydlu ar gyfer yr holl brosiectau	N/A N/A 12/20	PMO, SROs PMO PMO	2	3	6	↔	Agored		10/22/2020
								0											